



Awdurdodau Lleol

28 Ebrill 2020

Prynhawn da,

Mae dros fis wedi mynd heibio ers i'r mesurau ymbellhau cymdeithasol gael eu cyflwyno, ac rwy'n ddiolchgar i bob un ohonoch am ymroi i ddiogelu'r unigolion mwyaf bregus yn ein cymdeithas rhag dod i gysylltiad â COVID-19 hyd yn hyn. Mae'r ymdrechion i brynu a sicrhau llety ychwanegol i roi cartref i'r rhai sy'n cysgu allan neu sydd wedi'u dadleoli oherwydd yr argyfwng hwn wedi helpu'r unigolion dan sylw a'r gymuned ehangach. A wnewch chi gyfleu fy niolch diffuant i'ch timau a'ch swyddogion sy'n gwneud gwaith rhagorol, a hynny'n aml o dan amgylchiadau eithriadol o anodd, i helpu a chefnogi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned.

Rwyf wedi clywed am enghreifftiau o awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cydweithio mewn ffyrdd arloesol er mwyn sicrhau bod pawb yn cael llety a chymorth yn ystod yr argyfwng hwn, ac mae hyn yn galonddid i mi. Rwy'n ymwybodol hefyd bod tipyn o bwysau ar y system ac rydym yn benderfynol o gydweithio â chi i ddatrys y problemau hyn wrth iddynt godi.

Yn sgil cyhoeddi ein [canllawiau ynghylch cysgu allan yn ystod y pandemig](#), rwy'n credu y byddai'n help i egluro mwy am ein disgwyliadau dros y cyfnod argyfyngus hwn. Diben y llythyr hwn a'r canllawiau sydd wedi'u hatodi yw eich cynorthwyo, fel awdurdodau lleol, i gymryd camau, yn unol â'r deddfwriaeth gyfredol, i leihau cysylltiad pobl sy'n cysgu allan ac unigolion eraill digartref sydd mewn sefyllfaoedd bregus o ganlyniad i bandemig COVID-19. Rydym mewn cyfnod nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen, ac rwy'n gwybod eich bod yn cydnabod y cyfrifoldeb sydd arnom ni i gyd i ddiogelu'r unigolion hynny sydd â risg uwch o ddod yn ddigartref a dod i gysylltiad â COVID-19, a'r cyfle hefyd i gydweithio ag unigolion nad ydynt wedi defnyddio'r gwasanaethau o'r blaen. Gall y cymorth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd fod yn sylfaen i ailadeiladu bywydau, unwaith y bydd yr argyfwng hwn wedi dod i ben.

Rydym yn disgwyl bod pob awdurdod lleol yn parhau i wneud **popeth** o fewn ei allu i sicrhau nad oes neb yn cysgu allan. Fel y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, rwy'n credu'n gryf na ddylai unrhyw un fod heb lety a chymorth addas yn ystod y pandemig hwn. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n cysgu allan ar hyn o bryd, a'r rheini sydd dan fygythiad o orfod gwneud hynny, er enghraifft y rhai sy'n gadael carchardai neu sefydliadau eraill heb unrhyw lety i fynd iddo, a'r rheini sy'n dibynnu ar eraill megis unigolion sy'n mynd o sofa i sofa neu mewn llety dros dro anaddas.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ystyried difrifoldeb y sefyllfa bresennol, rwy'n rhoi canllawiau ychwanegol i chi mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd sydd yn Neddf Tai (Cymru) 2014, yn benodol mewn perthynas ag 'angen blaenoriaethol' a 'bod yn hyglwyf'. Mae'r canllawiau ychwanegol hyn yn y nodyn cyfarwyddyd atodedig.

Bydd darparu llety hirdymor yn parhau i fod yn her a rhaid i ni ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael yn y ffodd fwyaf effeithiol bosibl. Rwy'n ymwybodol o arfer ragorol mewn awdurdodau lleol ac mewn partneriaethau rhwng awdurdodau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i flaenoriaethu defnyddio eiddo gwag i helpu i wynebu'r her hon, ac rwy'n annog pawb i ystyried mabwysiadu'r dulliau hyn. O ystyried y pwysau ar dai, mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod pob stoc dai sydd ar gael yn cael ei defnyddio, a hynny gan sicrhau iechyd a diogelwch landlordiaid a chontractwyr wrth gwrs. Bydd angen cynnal asesiadau risg er mwyn sicrhau y cedwir at y canllawiau, ac atodir dolenni i'r cyfarwyddyd perthnasol isod.

https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cau-busnesau-ac-adeiladau-0?_ga=2.151138042.272992173.1587980281-87526102.1552300364

https://llyw.cymru/cymryd-pob-cam-rhesymol-i-gynnal-pellter-corfforol-yn-y-gweithle?_ga=2.151138042.272992173.1587980281-87526102.1552300364

Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector yn cyflawni llawer mwy nag ymdrechion unigol. Rwy'n annog awdurdodau i ddatblygu partneriaethau tynnach gydag awdurdodau cyfagos er mwyn cefnogi ei gilydd a datblygu trefniadau dwyochrog i sicrhau y gellir cefnogi pobl yn llawn. Nid yw'r feirws yn ystyried ffiniau awdurdodau lleol o gwbl ac mae angen inni fynd ati ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau y gallwn gefnogi pawb sydd angen cymorth.

Rwy'n cydnabod y baich ychwanegol y mae'r pandemig yn ei roi ar awdurdodau lleol ac rwyf eisoes wedi darparu arian ychwanegol i'ch helpu i ddarparu ymateb cyflym o dan yr amgylchiadau hyn. Rwy'n ddiolchgar am y gwaith y mae awdurdodau lleol a'ch partneriaid yn ei wneud i fynd ati'n rhagweithiol i symud pobl i mewn i lety ac yna ymlaen i lety mwy parhaol. Gobeithiaf y bydd rhywfaint o'r llety a ddarperir mewn ymateb i'r pandemig hwn yn dod yn fwy parhaol, fel bod llety ar gael yn y tymor hwy i'r bobl hynny sy'n chwilio am lety nawr. Lle nad yw hyn yn bosibl, rwy'n gobeithio y gallwn barhau i weithio mewn modd cydweithredol a chreadigol i ddod o hyd i lety addas arall ar gyfer unigolion fel bod hyn yn gam cyntaf ar daith i gael tai parhaol.

Dyma gyfnod nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen ac rydym oll yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol i wireddu nodau cyffredin. Rwy'n falch o'r dulliau creadigol a chydweithredol sydd ar waith, ac rwy'n diolch eto i bawb sy'n ymwneud â hyn am ei hymdrech i sicrhau bod yr aelodau mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn gallu diogelu eu hunain a phobl eraill yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gywir



Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canllawiau i awdurdodau lleol ar gefnogi pobl sy'n cysgu allan – argyfwng Covid-19

Cyflwyniad

Mae'n amlwg ein bod yn wynebu argyfwng iechyd cyhoeddus byd-eang nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen, wrth i COVID-19 barhau i ledaenu. Mae gan yr holl wasanaethau statudol ran i'w chwarae er mwyn cefnogi'r ymateb dyngarol ehangach, ac mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol.

Canllawiau

Rwy'n cyhoeddi'r canllawiau ychwanegol hyn i awdurdodau lleol yng Nghymru, drwy arfer y pŵer o dan adran 98 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae hyn yn ychwanegol at y Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (Mawrth 2016).

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf> (Saesneg yn unig)

Yn unol ag adran 98(4), mae'r canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/digartrefedd-coronafeirws> ac maent wedi'u llunio ar ôl ymgynghori â CLILC, Shelter Cymru, Crisis a Cyngor ar Bopeth.

Mae Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaethau sy'n arbennig o berthnasol i bobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig. Wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau isod:

Angen blaenoriaethol am lety – pobl sy'n cysgu allan yn ystod pandemig Covid-19

Wrth ystyried a oes gan ymgeisydd sy'n cysgu allan angen blaenoriaethol am lety, dylai awdurdodau lleol ystyried, ymysg materion eraill, adran 70(1)(c)(i) o'r Ddeddf. Mae adran 70(1)(c)(i) yn darparu bod gan berson sy'n hyglwyf o ganlyniad i reswm arbennig angen blaenoriaethol am lety. Mae'r ddarpariaeth yn nodi rhestr anghyflawn o enghreifftiau o resymau arbennig, sy'n cynnwys henaint, salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd corfforol neu feddyliol. Efallai y bydd rhesymau arbennig eraill wrth gwrs, gan gynnwys pandemig Covid-19 a'r camau y mae angen eu cymryd i ymateb iddo, er enghraifft yr angen i ynysu a chadw pellter cymdeithasol.

Ystyr hyglwyf yn adran 70 - pobl sy'n cysgu allan yn ystod pandemig Covid-19

Wrth ystyried a yw ymgeisydd yn hyglwyf, rhaid i awdurdodau lleol ystyried adran 71 o'r Ddeddf, sy'n diffinio pwy sy'n hyglwyf o dan adran 70. Mae adran 71 yn darparu bod person sy'n hyglwyf yn berson llai abl i ofalu amdano ei hun na pherson digartref, os digwydd i'r person ddod yn ddigartref ac ar y stryd. Yn ogystal, byddai person sy'n hyglwyf yn dioddef mwy o niwed nag y byddai person digartref arferol yn ei ddiodes.

Mae pandemig Covid-19 yn cyflwyno perygl difrifol ac eithriadol i'r bobl hynny sy'n ddigartref. Mae'n bosibl na fydd personau o'r fath yn gallu glynu wrth gyngor iechyd, i ynysu neu chadw pellter cymdeithasol, nac i gynnal y gofynion hylendid angenrheidiol. Nid yw hyn yn lefel risg y mae 'person digartref cyffredin' yn agored iddi.

Wrth benderfynu a yw ymgeisydd yn hyglwyf, cyfeirir at 'person digartref cyffredin' ac nid at y person digartref sydd yn fwyaf hyglwyf. Gall person digartref cyffredin fod yn ddigartref ac ar y stryd ond **heb fod** mewn perygl o fod â symptomau Covid-19 neu'n dioddef o symptomau Covid-19, ac yn ceisio cadw at gyngor iechyd.

Yn ystod y pandemig hwn, mae bron yn anochel bod rhywun sy'n ddigartref ac ar y stryd neu sy'n wynebu digartrefedd ar y stryd yn llai abl nag unigolyn digartref cyffredin i ofalu amdano'i hun a byddai'n dioddef mwy o niwed nag y byddai person digartref arferol yn ei ddioddef.

Bydd rhaid i awdurdod lleol sy'n penderfynu nad yw person sydd naill ai'n ddigartref ac ar y stryd neu'n wynebu digartrefedd ar y stryd (byddai'r olaf yn cynnwys, er enghraifft, rhywun sydd wedi dod o'r carchar ac nad oes unrhyw lety ar gael iddo) yn ystod y pandemig Covid-19 yn hyglwyf at ddiben adran 70, fod â sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ei benderfyniad a fydd yn gwrthsefyll craffu trwyadl a her gyfreithiol.

Adolygu

O ystyried bod y sefyllfa'n newid o hyd yn ystod y pandemig hwn, bydd Gweinidogion Cymru'n adolygu'r canllawiau hyn yn gyson, ac yn rhoi diweddariadau fel bo angen.